Papur y Bwrdd

14 Mai 2014

Teitl y Papur	Adroddiad Blynyddol Mynediad at Wybodaeth – 2013/14
Cyfeirnod y Papur:	NRW B B 39.14
Noddwyd y Papur gan: **Awduron y Papur yw:**	Clive Thomas Geralene Mills

Pwrpas y Papur:	Craffu
Argymhelliad:	Nodi cynnydd wrth ddelio â cheisiadau am wybodaeth a ddaeth i law ar gyfer 2013/14, ac ymateb iddynt, a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol
Angen Penderfyniad:	Oes

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	Dylai cynyddu tryloywder drwy gydymffurfio'n llawn â'n cyfrifoldebau Mynediad at Wybodaeth effeithio'n gadarnhaol ar **amgylchedd, economi** a **chymunedau** Cymru drwy gynyddu **gwybodaeth** a helpu i sicrhau diwylliant o ddysgu a gwella i Cyfoeth Naturiol Cymru drwy'r gwaith craffu ychwanegol

Mater

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ddatblygiadau'n ymwneud â cheisiadau i Cyfoeth Naturiol Cymru am wybodaeth yn 2013/14, a'r modd y cawsant eu trin, a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y maes cyfrifoldeb hwn.

Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd am ystadegau perfformiad yn ymwneud â cheisiadau Mynediad at Wybodaeth. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau a wneir gan ffynhonnell allanol am wybodaeth, data a chofnodion a ddelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru sydd i'w hystyried o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005

Cefndir

3. Fel rhan o'r gwaith a wnaed gan Raglen Cymru Fyw cyn y dyddiad breinio, aethom ati i ddatblygu system ar gyfer ymateb i geisiadau Mynediad at Wybodaeth a fyddai'n ein galluogi i gyflwyno ymatebion yn unol â'r gofynion deddfwriaethol o 1 Ebrill 2013 ymlaen.

4. Roedd hyn yn cynnwys datblygu a defnyddio arferion presennol y cyrff etifeddol.

Cynnydd yn ystod y flwyddyn

5. Ar ôl y diwrnod breinio, nodwyd angen i ddatblygu ein dull o gyflawni'r meysydd canlynol wrth ymateb i Geisiadau Mynediad at Wybodaeth

- Datblygu model cyflawni Cyfoeth Naturiol Cymru i gydnabod atebolrwydd yn ôl Cyfarwyddiaeth
- Angen i adolygu polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eglurder ynglŷn â pha geisiadau am wybodaeth i'w trin fel mater o drefn a cheisiadau am wybodaeth a alwai am eu cydnabod yn ffurfiol fel ceisiadau 'mynediad at wybodaeth' o dan y ddeddfwriaeth berthnasol
- Datblygu gweithdrefnau sy'n cefnogi cyfarwyddyd y Bwrdd a gofynion deddfwriaethol o ran rhyddhau gwybodaeth i'r cyhoedd mewn modd eglur a thryloyw.

6. Rydym wedi gwneud cynnydd yn erbyn pob un o'r rhain ac erbyn diwedd y flwyddyn, rydym wedi:

- Datblygu model cyflawni sy'n cefnogi strwythur Cyfoeth Naturiol Cymru
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau a datblygu canllawiau newydd i sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cydymffurfio'n well â'r ddeddfwriaeth berthnasol
- Mae'r Canllawiau yn diffinio'n eglur beth yw cyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefel gorfforaethol a gweithredol ac yn hyrwyddo ethos o ryddhau gwybodaeth i'r cyhoedd mewn modd eglur a thryloyw
- Adolygu ein Cynllun Cyhoeddi i adlewyrchu nifer o newidiadau cyhoeddi rhagweithiol, yn cynnwys newid i fabwysiadu cofnod datgelu fel enghraifft o arfer da

Risgiau

7. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu risgiau deddfwriaethol a risg i'w enw da am fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol wrth ryddhau gwybodaeth i'r cyhoedd.

Goblygiadau Ariannol

8. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

Cyfathrebu

9. Bydd cyhoeddi ein hadroddiad o ddiddordeb i'n staff a gallai hefyd ddenu diddordeb allanol. Byddwn yn datblygu Cynllun Cyfathrebu addas.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

10. Nid oes angen un.

Mynegai Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiad Mynediad at Wybodaeth a Naratif ategol.